






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r Cyngor

16 Ebrill 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

16 Ebrill 2021

Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf gan y **Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE)** o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Mawrth rhwng **0.7 ac 1.2** (cyfwng hyder o 90%). Ar 14 Ebrill, mae **lechyd Cyhoeddus Cymru** yn amcangyfrif bod R_t yn **0.8** (cyfwng hyder o 95%: 0.7 i 0.9) sy'n fwy cyfredol ond yn defnyddio data achosion yn unig.
- Ar hyn o bryd, mae nifer yr achosion, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau yn gymharol isel ac mae'r duedd yng Nghymru ar i lawr yn gyson, sy'n golygu bod R_t yn gallu bod yn fwy anwadal ac mae'n adlewyrchu brigiadau o achosion lleol yn hytrach na bod yn ddangosydd o drosglwyddiad cymunedol eang. Ar hyn o bryd, mae'n fwy defnyddiol edrych ar gyfraddau digwyddedd a chyffredinrwydd nag R_t .
- **Mae'n ymddangos bod nifer yr achosion wedi sefydlogi ar lefel isel**, gyda mwy na hanner awdurdodau lleol Cymru â chyfradd o lai na 15 o achosion am bob 100,000 o bobl, ac ar lefel genedlaethol mae gan Gymru 17.9 o achosion am bob 100,000 o bobl. Yn dilyn brig y don gyntaf ar 10 Ebrill gwelwyd y lefel hon i ddechrau ar 3 Mehefin 2020, sef adeg dechrau'r cynigion i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio nifer o fannau awyr agored yn ddiogel.
- Fel yr adroddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn yr wythnos ddiweddaraf, gostyngodd nifer yr achosion neu fe wnaethant aros yn sefydlog ym mhob grŵp oedran, ond yn y grwpiau oedran hynaf y mae'r nifer uchel o achosion o hyd.
- Fel yr adroddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ar 18 Ebrill mae mwy nag **1.6 miliwn o ddosau cyntaf** o frechlyn COVID-19 a mwy na **0.6 miliwn o ail ddosau** wedi'u rhoi yng Nghymru.
- Mae gwaith dadansoddi diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar 28 Mawrth 2021, yn awgrymu bod **49.1%** o'r boblogaeth 16+ oed wedi profi'n positif am wrthgyrff i COVID-19 o sampl gwaed (cyfwng credadwy o 95%: 43.2% i 54.9%).
- Ar gyfer yr wythnos rhwng 4 a 10 Ebrill 2021, mae [arolwg heintiadau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yn y gymuned yng Nghymru wedi gostwng ymhellach i oddeutu **1 o bob 920** o bobl (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 2,080 i 1 o bob 510).
- Mae achosion a gadarnhawyd o COVID-19 mewn ysbytai ac mewn gwelyau Unedau Gofal Dwys yn parhau i ostwng ac maent ar yr un lefel a welwyd ddiwethaf ganol mis Medi 2020. Mae marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd drwy wyladwriaeth gyflym lechyd Cyhoeddus Cymru o farwolaethau hyd at 12 Ebrill yn gostwng ychydig, gyda 9 marwolaeth wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod 7 diwrnod blaenorol.
- Ar 16 Ebrill, yr amrywiolyn VOC-20DEC-01 (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yn y DU) yw'r amrywiolyn amlycaf yng Nghymru o hyd. Cafwyd **35 o achosion a**

gadarnhawyd ac achosion tebygol ar sail genomeg o VOC-20DEC-02 (+6) (B.1.351, yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica) a **10 achos o'r amrywiolyn VUI-21FEB-03** (B.1.525, sy'n gysylltiedig â Nigeria) (+4). Mae **1 achos o'r amrywiolyn VUI-21JAN-01** (P.1, a nodwyd gyntaf ym Mrasil drwy Japan) wedi'i nodi yng Nghymru.

- Mae data symudedd wedi cynyddu'n sydyn mewn sawl categori ers 12 Ebrill – er enghraifft, data symudedd defnyddwyr Facebook ddydd Sadwrn 17 Ebrill oedd y rhai uchaf ar ddydd Sadwrn ers 29 Awst 2020, a cheisiadau am gyfarwyddiadau gyrru gan Apple ddydd Gwener 16 Ebrill oedd y nifer mwyaf ar ddydd Gwener ers 18 Medi 2020.